GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales	**Cyfeirnod:** HC26 **Rhif y Fersiwn:** 1 **Dyddiad yr adolygiad nesaf:** Mai 2027

POLISI A GWEITHDREFN GYFUN TECHNEG ASEPTIG DDI-GYFFWRDD

Datganiad Polisi

Mae'r polisi hwn yn ddogfen 'Cymru Gyfan', wedi'i gynhyrchu gan y Rhaglen Heintiau, Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a Phresgripsiynu sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd (HARP), Iechyd Cyhoeddus Cymru, mewn ymgynghoriad â:

- Grŵp Llywio Techneg Aseptig Ddi-gyffwrdd (ANTT) Cymru Gyfan
- Is-grŵp Sefydliadau Addysg Uwch (SAU)
- Cymdeithas Ymarfer Septig Diogel
- Bwrdd Cyflawni ar gyfer Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd (HCAI)

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r dull gweithredu safonol cenedlaethol presennol ar gyfer codi safonau clinigol wrth ddefnyddio techneg aseptig a sicrhau asepsis mewn triniaethau clinigol anfewnwthiol a mewnwthiol. Y nod yw darparu dull safonedig o'r enw Techneg Aseptig Ddi-gyffwrdd (ANTT®) a lleihau amrywiad ym maes techneg ac ymarfer aseptig ledled Cymru wrth atal heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (HCAI).

Mae'r polisi enghreifftiol hwn yn berthnasol ym mhob lleoliad sy'n darparu gofal iechyd i gleifion a/neu ddefnyddwyr gwasanaeth ac i'r holl weithwyr gofal iechyd sy'n rhoi triniaeth glinigol y mae angen techneg aseptig ar ei chyfer.

Mae'r adrannau canlynol wedi'u lliwio'n llwyd gan nad ydynt yn berthnasol i wasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru:

- Adrannau 5.4 ac 8.6.

Mae rhai swyddi yn Adran 5.6 wedi cael eu lliwio'n llwyd gan nad ydynt yn berthnasol i wasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gweithdrefnau Ategol a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig

Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau corfforaethol ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ategir y polisi hwn gan:

- Ar dudalen fewnrwyd Polisïau Llywodraethu Clinigol a Rheoli Heintiau (Polisïau Llywodraethu Clinigol a Rheoli Heintiau - Iechyd Cyhoeddus Cymru (GIG. Cymru)):
  - Polisi Anafiadau Offer Miniog ac Amlygiad a Rheoli Offer Miniog yn Ddiogel
  - Gweithdrefn Anafiadau Offer Miniog ac Amlygiad
  - Polisi Atal a Rheoli Heintiau

- Llawlyfr Cenedlaethol Atal a Rheoli Heintiau
  NIPCM - Iechyd Cyhoeddus Cymru (GIG.Cymru)

Rhestrir deddfwriaeth berthnasol a dogfennau cysylltiedig yn y Polisi Enghreifftiol isod.

Asesiadau Effaith	Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Iechyd (EHIA) wedi'i gwblhau ac mae ar gael ar dudalennau polisi a gweithdrefnau ar y we.
Cymeradwywyd gan	Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Dyddiad Cymeradwyo	20 Mai 2024
Dyddiad Adolygu	20 Mai 2027
Dyddiad Cyhoeddi:	11 Mehefin 2024
Grŵp ag awdurdod i gymeradwyo gweithdrefnau ategol	Y Grŵp Atal a Rheoli Heintiau
Cyfarwyddwr Gweithredol/Cyfarwyddwr Atebol	Claire Birchall, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd.
Awdur	Jennie Leleux, Nyrs Arweiniol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau.

Ymwadiad

Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi mynd heibio, sicrhewch mai'r fersiwn rydych yn ei defnyddio yw'r un ddiweddaraf, naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu Uned Fusnes y Bwrdd.

Mae hon yn ddogfen reoledig. Cedwir y prif gopi gan Uned Fusnes y Bwrdd.

Er y gellir argraffu'r ddogfen hon, y fersiwn electronig a bostiwyd ar y rhyngrwyd yw'r prif gopi. Nid yw copïau wedi'u hargraffu o'r ddogfen hon yn rheoledig. **Ni ddylid** cadw'r ddogfen hon ar yriannau lleol na rhwydwaith, yn hytrach dylid ei chyrchu o'r rhyngrwyd bob amser.

Crynodeb o adolygiadau/diwygiadau				
Rhif y fersiwn	**Dyddiad Adolygu**	**Dyddiad Cymeradwyo**	**Dyddiad Cyhoeddi**	**Crynodeb o'r Diwygiadau**
1	03.11.23	20.05.24	11.06.24	Mabwysiadu polisi enghreifftiol Cymru Gyfan at ddefnydd lleol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Polisi Enghreifftiol
Techneg Aseptig Ddi-gyffwrdd (ANTT®):
Dull cenedlaethol, safonol ar gyfer techneg aseptig

Dyddiad i'w adolygu:	Ebrill 2026	**Nifer y tudalennau:**	30
Teitl/teitlau swydd/swyddi'r Awdur Gwreiddiol:	Rhaglen Heintiau, Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a Phresgripsiynu sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd (HARP), Iechyd Cyhoeddus Cymru Mewn ymgynghoriad â: • Grŵp Llywio ANTT Cymru Gyfan • Is-grŵp Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) • Cymdeithas Ymarfer Septig Diogel • Bwrdd Cyflawni ar gyfer Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd		
Adran/cyfarwyddwr cyfrifol:	Tîm Atal a Rheoli Heintiau HARP, Iechyd Cyhoeddus Cymru		
Cymeradwywyd gan:	Grŵp Llywio ANTT Cymru gyfan ac is-grŵp SAU Cymdeithas Ymarfer Diogel (ASAP) HARP, Iechyd Cyhoeddus Cymru Bwrdd Cyflawni HCAI, Iechyd Cyhoeddus Cymru		
Dyddiad cymeradwyo gwreiddiol:	07 Mehefin 2019		
Dyddiad Cyflwyno Gwreiddiol (yn fyw):	04 Gorffennaf 2019		
Fersiwn:	Fersiwn TERFYNOL 1 - 04 Gorffennaf 2019 Fersiwn TERFYNOL 2 - Gorffennaf 2019 Fersiwn TERFYNOL 3 - Mawrth 2023		
Dyddiad Adolygu	Rhagfyr 2022		
Dyddiad cwblhau ffurflen ddilysu (1):	24 Mawrth 2023		

Dogfennau i'w darllen ochr yn ochr â'r polisi enghreifftiol hwn:	Egwyddorion ANTT®[1] National Infection Prevention and Control Model Policies NHS Scotland NIPCM- ar-lein[2] Cylchlythyr Iechyd Cymru 2022/014 Nodau Gwella ar gyfer AMR A HCAI YN 2021-23.(Llywodraeth Cymru 01 Mawrth 2022)[3] Cod Ymarfer Cymru ar gyfer Atal Heintiau (Llywodraeth Cymru, Mai 2014) Cod Ymarfer [18] Cylchlythyr Iechyd Cymru 2015-26 Gweithredu ANTT (Llywodraeth Cymru, 5 Mehefin 2015)[19] Cylchlythyr Iechyd Cymru 2015-47 Diweddariad ar weithredu ANTT (Llywodraeth Cymru, 9 Hydref 2015)[20] epic 3: National Evidence-Based Guidelines for the Prevention of Healthcare-Associated Infections in Hospitals in NHS Hospitals in England (Loveday et al, 2014)[9] The Royal Marsden Hospital Manual of Clinical Nursing Procedures 10th Edition (2020)[7] Procedures - Royal Marsden Manual (rmmonline.co.uk) National Institute of Clinical Excellence (NICE) Infection prevention and control of healthcare-associated infections in primary and community care (2017)[11] Healthcare-associated infections: prevention and control in primary and community care | Guidance | NICE

Crynodeb Gweithredol:
Mae'r polisi enghreifftiol hwn yn amlinellu'r dull gweithredu safonol cenedlaethol presennol ar gyfer codi safonau clinigol wrth ddefnyddio techneg aseptig a sicrhau asepsis mewn triniaethau clinigol anfewnwthiol a mewnwthiol. Y nod yw darparu dull safonedig o'r enw Techneg Aseptig Ddi-gyffwrdd (ANTT®) a lleihau amrywiad ym maes techneg ac ymarfer aseptig ledled Cymru wrth atal heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (HCAI). Fel y cytunwyd yn flaenorol gan Gyfarwyddwyr Nyrsio Gweithredol, y bwriad yw mabwysiadu'r polisi enghreifftiol hwn fel polisi cenedlaethol gan Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd, gan gynnwys y sector gofal sylfaenol a sefydliadau gofal iechyd eraill h.y. cartrefi gofal ac ysbytai annibynnol yng Nghymru. Mae angen i reolwyr ac arweinwyr perthnasol drefnu a chefnogi'r broses o gyflwyno'r polisi hwn a'i werthuso'n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau bod staff clinigol perthnasol yn cael hyfforddiant priodol ac asesiadau cymhwysedd ym maes ANTT® er mwyn sicrhau bod y dechneg yn cael ei hymgorffori mewn ymarfer asepsis bob dydd. Cyhoeddwyd y polisi enghreifftiol ANTT hwn am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2017, ychwanegwyd ANTT Argyfwng ym mis Gorffennaf 2019, diweddarwyd yr holl ddolenni yn fersiwn 3/2023, dosbarthwyd y polisi ar gyfer sylwadau, mân ddiwygiadau a diweddaru atodiadau gan gynnwys Achredu ANTT, terminoleg ac ychwanegu gwybodaeth wedi'i diweddaru am y fframwaith yn yr atodiad.

Cynnwys

1. Cyflwyniad 8
2. Diben 9
3. Nodau ac Amcanion.....9
4. Cwmpas y Polisi 10
5. Rolau a Chyfrifoldebau mewn Sefydliadau 10
5.1 Y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio..... 10
5.2 Uwch Arweinwyr Clinigol, Rheolwyr Adrannol a Rheolwyr Nyrsys10
5.3 Gweithwyr Gofal Iechyd..... 11
5.5 Staff Meddygol Ymgynghorol..... 12
5.6 Tîm Atal a Rheoli Heintiau (IPCT),..... 12
5.7 Bydd yr Arweinydd ANTT® enwebedig yn gwneud y canlynol..... 13
5.8 Bydd Hyfforddwyr/Hwyluswyr Allweddol enwebedig o bob maes clinigol neu grŵp proffesiynol yn gwneud y canlynol: 13
5.9 Arweinwyr Caffael..... 14
5.10 Sefydliadau Addysg Uwch (SAU): 14
6 Cyflwyno ANTT® 14
7 Hyfforddiant:.....15
8. Ymarfer atal heintiau sylfaenol pwysig ar gyfer techneg aseptig: 16

8.1 Defnyddio Rhagofalon Atal a Rheoli Heintiau Safonol (SIPCP) fel hylendid dwylo: 16
8.2 Hylendid Dwylo 17
8.3 Defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) 17
8.4 Halogiad Amgylcheddol/Aer 17
8.5 Cymorth angenrheidiol ar gyfer techneg aseptig effeithiol 18
8.6 ANTT® Argyfwng 18
9. Adnoddau ANTT 19
9.1 Canllawiau ar Weithdrefn ANTT® 19
9.2 PowerPoint Addysgol ar Ddull ANTT 19
9.3 Camau ar gyfer gweithdrefn ANTT® – gweler Atodiad 2 19
10. Lledaenu a Gweithredu 19
11. Archwilio a Monitro'r Gwaith o Gyflwyno ANTT® 20
12. Cydymffurfio/Diffyg Cydymffurfio â'r Polisi 20
13. Dosbarthu 20
14. Adolygiad 21
15. Deddfwriaeth 21
16. Cydraddoldeb 21
17. Cyfeiriadau a Llyfryddiaeth 21
18. ATODIADAU 25
Atodiad 1: Diffiniadau / Geirfa 25
Atodiad 2: Camau triniaeth ANTT® 27
Atodiad 3: Poster ANTT® i Gleifion 29
Atodiad 4: Poster ANTT® i Staff Clinigol 30
Atodiad 5: Poster Fframwaith Ymarfer Clinigol ANTT®: 31
Atodiad 6: Templed enghreifftiol ar gyfer Staff Ambiwlans: Canllaw Pibelliad Ymylol (2017) 32
Atodiad 7: Asesiad Risg Argyfwng ANTT 33
Atodiad 8: Terminoleg Safonol 34
Atodiad 9: Amlinelliad o Fframwaith Ymarfer ANTT® 35

1. Cyflwyniad

Yn gyffredinol, ystyrir mai ystyr **asepsis** yw 'Freedom from pathogenic material in sufficient quantity to cause infection'.[14] Yn ystod triniaethau clinigol, nod asepsis yw atal heintio cleifion trwy greu amgylchedd â chyfaint microbau isel trwy ddefnyddio dyfeisiau a deunyddiau di-haint yn unig a chynnal techneg aseptig.

Mae techneg aseptig yn sgil nyrsio a meddygol graidd ond mae'n cael ei defnyddio gan weithwyr gofal proffesiynol perthynol i iechyd a gweithwyr cymorth gofal iechyd eraill hefyd. Mae safon ymarfer techneg aseptig yn gallu bod yn anghyson, ac os na ddefnyddir y dechneg yn gywir, mae'n gallu bod yn un o brif achosion haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (HCAI) ym meysydd gofal sylfaenol, cymunedol, eilaidd a gofal y tu allan i'r ysbyty.

Yn hanesyddol, mae techneg aseptig wedi'i hystyried yn faes dryslyd ac amwys, ac mae termau ac egwyddorion ymarfer wedi golygu pethau gwahanol i ddefnyddwyr gwahanol. Mae hyn wedi arwain at anghysondeb a rhai arferion is-safonol.

Fel rhan o'r ymdrech i leihau HCAI, mae'r 'Dechneg Aseptig Ddi-gyffwrdd' (ANTT®) yn cael ei defnyddio'n rhyngwladol fel fframwaith ymarfer diogel ac effeithiol ar gyfer techneg aseptig wrth ddarparu pob triniaeth glinigol aseptig.[19,20]

Mae'r Gymdeithas Ymarfer Aseptig Diogel (ASAP), mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a gyda chymorth Llywodraeth Cymru, wedi bod yn darparu cymorth ymarfer a chyflawni Adnoddau ANTT® i bob gweithiwr gofal iechyd ledled Cymru ers mis Mehefin 2015.

Bydd y broses o safoni techneg aseptig trwy ddefnyddio ANTT® ledled Cymru yn lleihau amrywioldeb mewn ymarfer ac yn codi safonau er budd cleifion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i bob sefydliad gofal iechyd 'gyflwyno' hyfforddiant cymhwysedd ANTT® i'r holl staff perthnasol yn eu sefydliad. (WHC/2015/026)[19] Mae egwyddorion ANTT® yn cyd-fynd ag egwyddorion gofal iechyd darbodus[26] ac agenda 'Cymru'n Un', dull gweithredu Unwaith i Gymru. Mae'r angen am asepsis, yn enwedig wrth ddefnyddio triniaethau mewnwthiol a rheoli clwyfau, yn cael ei ddangos yn yr epic3 Guidelines.[9]

Beth yw ANTT®?

Mae'r dull ANTT® yn Ymgyrch Ryngwladol sydd â'r nod o hyrwyddo dealltwriaeth glir o asepsis ac elfennau hanfodol techneg aseptig. Mae'r dull hwn yn 'bartneriaeth' dair ffordd rhwng cleifion/defnyddwyr

gwasanaeth, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a sefydliadau gofal iechyd, er mwyn mynd ati i hyrwyddo'r '6 Cham Gweithredu ar gyfer Techneg Aseptig Ddiogel' (Atodiad 4).

Lluniwyd y Fframwaith Ymarfer ANTT® gan Stephen Rowley (2001),[15] ac mae'n cael ei ddiffinio fel, *'A specific type of aseptic technique with a unique theoretical and clinical practice framework'.*[15]

Mae'r fframwaith yn berthnasol i bob triniaeth glinigol anfewnwthiol a mewnwthiol gan gynnwys llawdriniaeth fawr, mewnosod a chynnal dyfeisiau meddygol yn y corff, rheoli clwyfau a'r holl ofal sylfaenol, cymunedol a thu allan i ysbytai sydd angen ymarfer aseptig.

Mae'r broses o ddatblygu a lledaenu'r Fframwaith Ymarfer ANTT® yn cael ei goruchwylio gan y Gymdeithas Ymarfer Septig Diogel (ASAP), sefydliad anllywodraethol nid-er-elw. Mae'r ASAP yn gweithio mewn partneriaeth â GIG Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i safoni techneg aseptig fel safon genedlaethol, ac mae'n darparu diweddariadau i staff gofal iechyd Cymru ar gyfer yr holl adnoddau ANTT® wrth iddynt gael eu hadolygu a'u datblygu. Mae'r adnoddau presennol a'r ANTT® llawn i'w gweld trwy ddilyn y ddolen hon ANTT - Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae Rowley et al wedi darparu fersiwn gryno (2010).[16]

Mae modd cysylltu ag ASAP i gael cymorth parhaus ar faterion ymarfer a gweithredu drwy'r wefan www.antt.org.

2. Diben

Diben y polisi enghreifftiol cenedlaethol hwn yw helpu i gyflwyno'r fframwaith ymarfer ANTT® fel bod modd safoni techneg ac 'iaith ymarfer' ar gyfer pob triniaeth aseptig. Rhaid i ANTT® gael ei hymgorffori mewn triniaethau clinigol bob dydd fel rhan o ymrwymiad cadarn i leihau risgiau HCAI a'r angen am ragnodi gwrthficrobaidd er mwyn gwella diogelwch cleifion. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod disgwyliadau i leihau HCAI bob blwyddyn ar gyfer *Clostridioides difficile*, bacteremia *Staphylococcus aureus* a bacteremia sy'n adweithio'n negyddol i brofion Gram, yn ogystal â disgwyliadau ar gyfer rhagnodi gwrthficrobaidd. Mae'r disgwyliadau hyn yn cyd-fynd â'r dyheadau a amlinellir yn the addendum to the 5 year UK National Action Plan (NAP) a'r 20 year vision i sicrhau gostyngiadau pellach yn y dyfodol a chael effaith gadarnhaol ar gyfraddau MRSA, Heintiau Llif Gwaed MSSA, Heintiau'r Llwybr Wrinol a Heintiau Clwyf Llawfeddygol. Mae cydymffurfio ag ANTT® yn helpu Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd i leihau'r heintiau hyn a HCAIs eraill wrth wella profiad a chanlyniadau cleifion.

3. Nodau ac Amcanion

Mae'r polisi enghreifftiol hwn yn darparu fframwaith sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael ei fabwysiadu'n eang ar gyfer sefydlu ANTT® fel y

dechneg ddiogel ac effeithiol ar gyfer pob triniaeth aseptig mewn sefydliadau gofal iechyd ledled Cymru.

Dyma'r amcanion:

- Nodi rôl ANTT® wrth leihau HCAI
- Nodi rolau a chyfrifoldebau allweddol wrth roi'r ANTT® ar waith
- Disgrifio sut i gyflwyno a defnyddio ANTT®
- Nodi egwyddorion ANTT® a'i chymhwysiad i ymarfer
- Amlinellu'r gofynion ar gyfer asesu dysgu a chymhwysedd ar gyfer staff sy'n ymwneud â thriniaethau aseptig clinigol
- Darparu adnoddau a phecyn cymorth i gefnogi ANTT® yn ymarferol
- Bod yn berthnasol mewn lleoliadau gofal acíwt, cymunedol a sylfaenol, gan gynnwys gofal argyfwng y tu allan i ysbyty

4. Cwmpas y Polisi

Mae'r polisi enghreifftiol hwn yn berthnasol ym mhob lleoliad sy'n darparu gofal iechyd i gleifion a/neu ddefnyddwyr gwasanaeth ac i'r holl weithwyr gofal iechyd sy'n rhoi triniaeth glinigol y mae angen techneg aseptig ar ei chyfer.

5. Rolau a Chyfrifoldebau mewn Sefydliadau

Y Bwrdd a'r Prif Swyddog Gweithredol sy'n gyfrifol am Atal a Rheoli Heintiau ym Myrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd y GIG yn y pen draw. Mae'r cyfrifoldeb hwn, ynghyd â chyfrifoldeb am ANTT® yn cael ei ddirprwyo i'r Tîm Gweithredol o dan arweinyddiaeth Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio.

5.1 Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio

- Mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol i sicrhau bod ANTT® yn cael ei chyflwyno'n llawn a'i chynnal yn effeithiol yn ei sefydliad[19,20]
- Bydd yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi hwn a pholisïau/gweithdrefnau ANTT® lleol
- Bydd yn enwebu arweinydd sefydliadol ar gyfer ANTT®
- Bydd yn adolygu cynnydd ac yn adrodd i'r Bwrdd ar gyflwyno'r ANTT® a sicrhau bod holl grwpiau gweithwyr gofal iechyd yn parhau i gydymffurfio
- Bydd yn sicrhau bod adnoddau ariannol digonol ar gael.

Mae'r cyfrifoldeb gweithredol a phroffesiynol yn perthyn i'r unigolyn sy'n rhoi'r driniaeth.

5.2 Uwch Arweinwyr Clinigol, Rheolwyr Adrannol a Rheolwyr Nyrsys

- Byddant yn gyfrifol am weithredu a monitro cydymffurfiaeth ag ANTT® yn effeithiol, gan sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd pan fydd staff yn methu â chydymffurfio â'r polisi a'r hyfforddiant gofynnol

- Byddant yn nodi arweinydd ANTT® a hyfforddwyr ac aseswyr allweddol ar gyfer eu maes cyfrifoldeb
- Byddant yn sicrhau bod adnoddau a/neu gyfarpar ychwanegol ar gael fel bod gweithwyr gofal iechyd yn gallu ymgymryd â theori ac ymarfer ANTT®
- Byddant yn hwyluso'r broses o gwblhau'r rhaglen e-ddysgu Cymru Gyfan ar gyfer ANTT® gan bob gweithiwr gofal iechyd sy'n ymwneud â thriniaethau aseptig e.e. amser gwaith gwarchodedig a mynediad at gyfrifiadur
- Byddant yn hwyluso'r broses o gwblhau asesiad cymhwysedd ar gyfer pob gweithiwr gofal iechyd sy'n ymgymryd ag unrhyw fath o driniaeth aseptig
- Byddant yn monitro ac yn adrodd ar lefel cymhwysedd y tîm ac yn adrodd i'r pwyllgor risg priodol
- Byddant yn cynorthwyo gweithwyr gofal iechyd i gydymffurfio â'r holl hyfforddiant statudol a gorfodol, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol yn ymwneud â Rhagofalon Safonol Atal a Rheoli Heintiau
- Byddant yn rhoi gwybod am y polisi enghreifftiol hwn i'r holl weithwyr iechyd proffesiynol neu weithwyr sy'n ymwneud â ANTT® gan gynnwys rolau addysgol ac arbenigol
- Byddant yn ymgorffori ANTT® mewn ymarfer aseptig arferol a'r holl waith addysgu triniaethau clinigol lle mae angen asepsis

5.3 Gweithwyr Gofal Iechyd

- Byddant yn gyfrifol am fod yn gyfarwydd â pholisïau NIPCM[2] ac am gydymffurfio â'r polisi enghreifftiol hwn a pholisïau IPC lleol perthnasol eraill er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo heintiau
- Gweithredu er budd gorau cleifion bob amser
- Ymgymryd â thriniaethau mewnwthiol a thriniaethau eraill yn unol ag egwyddorion a phroses ANTT® (atodiadau 2-5) a'r polisi hwn.
- Derbyn cyfrifoldeb personol am fynychu hyfforddiant gorfodol neu gwblhau e-ddysgu perthnasol a gweithredu yn unol â Chod Ymarfer Cymru ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd[18] yng Nghymru
- Bod yn atebol am eu hymarfer yn unol â'u disgrifiad swydd a'u codau ymddygiad proffesiynol, er enghraifft, NMC Y Cod - Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth[12] ac Ymarfer Meddygol Da GMC[8]
- Cwblhau'r hyfforddiant a'r asesiad cymhwysedd ANTT® gofynnol os ydynt yn rhoi unrhyw driniaethau clinigol aseptig
- Ymgorffori ANTT® ym mhob agwedd ar ymarfer aseptig

5.4 Staff Gofal Iechyd Sylfaenol a Gofal Iechyd Cymunedol, gan gynnwys Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Mewn unrhyw leoliadau gofal y tu allan i ysbyty (e.e. Nyrsio Cymunedol, Gofal Sylfaenol, Cyfleusterau Gofal Hirdymor, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru) mae'n bosibl y bydd heriau wrth gymhwyso egwyddorion ANTT® yn ymwneud ag offer a'r amgylchedd. Dylid cwblhau asesiad risg lleol

(Atodiad 7) i asesu sut y gellir mabwysiadu'r egwyddorion, a dylid cofnodi unrhyw addasiad (os oes angen), gan leihau'r risg i gleifion. Mae adnoddau i gynorthwyo gyda'r asesiad risg hwn ar gael yn y Fframwaith ANTT ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Er yn cydnabod cymhwyso ANTT® mewn sefyllfaoedd heriol, mae'n bosibl ceisio lleihau risg i gleifion o hyd drwy gymhwyso '4 Cam Gweithredu ar gyfer Techneg Aseptig Ddiogel' ANTT® (Atodiad 3). Mae offer ac adnoddau sy'n berthnasol i leoliadau cymunedol a staff ambiwlans ar gael trwy'r ddolen hon. Mae Atodiad 6 yn darparu templed enghreifftiol ar gyfer 'Canllaw Pibelliad Ymylol Ambiwlans'.
Gweler 8.6– ANTT® Argyfwng hefyd

Bydd egwyddorion ANTT® yn cael eu cymhwyso a'u haddasu i reoli clwyfau cronig. Er y cydnabyddir bod modd symleiddio rhai triniaethau clwyfau cronig e.e. glanhau a rhoi dresin ar wlser y goes yng nghartref y claf ei hun, y nod bob amser yw asepsis a pheidio â throsglwyddo unrhyw ficro-organebau eraill i'r clwyf. Dylid gofyn am arweiniad gan y Nyrs Hyfywedd Meinwe ar agweddau sydd angen ANTT®.

5.5 Staff Meddygol Ymgynghorol

- Byddant yn cwblhau'r hyfforddiant a'r asesiad cymhwysedd ANTT® gofynnol
- Byddant yn gymwys ac yn diweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau proffesiynol
- Byddant yn cydymffurfio â'r Fframwaith Ymarfer Meddygol Da.[8] GMC - Good Medical Practice
- Byddant yn gyfrifol am sicrhau bod eu meddygon iau a'u timau'n cydymffurfio ag egwyddorion ANTT® ac yn ymgorffori'r egwyddorion hyn yn eu gwaith, ac yn cwblhau'r hyfforddiant a'r asesiad cymhwysedd gofynnol

5.6 Tîm Atal a Rheoli Heintiau (IPCT), Nyrs Hyfywedd Meinwe (TVN), Timau Ymataliaeth a Thimau Mynediad Mewnwythiennol

Bydd y timau arbenigol hyn yn cymryd rhan yn y Grŵp Llywio Cenedlaethol ANTT® sy'n helpu i gyflwyno ANTT® ledled Cymru. Mae ganddynt rôl ganolog wrth gynorthwyo timau sefydliadol perthnasol i gydlynu'r gwaith o gyflwyno ANTT, sicrhau bod hyfforddiant yn eu meysydd arbenigol yn cydymffurfio ag egwyddorion ANTT, yn ogystal â rheoli risg a gwerthuso effeithiolrwydd wrth ddefnyddio'r dechneg.

Bydd yr IPCT yn gwneud y canlynol:

- Darparu cyngor arbenigol yn unol â'r polisi hwn
- Cynorthwyo rheolwyr a staff i gyflwyno ANTT®
- Darparu gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant i alluogi rheolwyr a defnyddwyr i ymgymryd ag asesiad risg angenrheidiol

- Cynorthwyo ymchwiliadau mewn meysydd sydd â risg benodol er mwyn rhoi cyngor ar arferion diogel
- Sicrhau bod gweithdrefnau/polisïau lleol neu wedi eu haddasu yn parhau i fod yn gyson â'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ymarfer diogel, ac adolygu/diweddaru polisïau a gweithdrefnau lleol bob tair blynedd o leiaf
- Nodi meysydd i'w gwella ac adrodd i Reolwyr Atal a Rheoli Heintiau, y Pwyllgor Atal a Rheoli Heintiau lleol, a grwpiau Risg Glinigol neu grwpiau Diogelwch Cleifion, Iechyd a Diogelwch lleol a grwpiau cenedlaethol
- Cefnogi rhaglen addysg a hyfforddiant ar gyfer ANTT® mewn gofal sylfaenol ac eilaidd
- Rhoi gwybod am unrhyw effaith cydymffurfiaeth a nodwyd yn ystod ymchwiliadau yn ymwneud â HCAI, yn unol â Dyletswydd Ansawdd a Dyletswydd Gonestrwydd.[29, 30] Bydd sicrwydd yn ymwneud â dysgu a rennir o ymchwiliad o'r fath yn cael ei adrodd i'r grwpiau llywodraethu, ansawdd a diogelwch perthnasol.

5.7 Bydd yr Arweinydd ANTT® enwebedig yn gwneud y canlynol

- Darparu arweinyddiaeth leol ar gyfer cyflwyno ANTT®
- Cymryd rhan yng ngwaith Grŵp Llywio ANTT® Cymru Gyfan dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn gallu rhannu arfer gorau o'u sefydliad ac oddi mewn iddo
- Rhoi arweiniad i'w sefydliad ar ddatblygiadau yn y dyfodol, e.e. cyflwyno gofal sylfaenol, adnoddau wedi'u diweddaru, pecynnau safonedig
- Sicrhau bod yr holl hyfforddiant, polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau lleol yn cydymffurfio ag ANTT®

5.8 Bydd Hyfforddwyr/Hwyluswyr Allweddol enwebedig o bob maes clinigol neu grŵp proffesiynol yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod pob gweithiwr gofal iechyd sy'n ymwneud â phrosesau aseptig yn cwblhau hyfforddiant e-ddysgu ANTT® Cymru Gyfan
- Darparu hyfforddiant ac asesiad cymhwysedd electronig/papur ychwanegol yn ymwneud ag ANTT® ar gyfer staff perthnasol yn eu hadran
- Cadw cofnodion cywir o staff sydd wedi cael hyfforddiant
- Meithrin diwylliant ar gyfer asepsis ac ymarfer ANTT® yn eu maes clinigol/grŵp proffesiynol
- Sicrhau cydymffurfiaeth ag ymarfer ANTT®, gan herio ymarfer anniogel yn briodol
- Sicrhau eu cydymffurfiaeth eu hunain â chymhwysedd ac ymarfer ANTT®
- Nodi a chefnogi adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i gydymffurfio ag egwyddorion allweddol ANTT®
- Nodi a mynd i'r afael â heriau a rhannu meysydd ymarfer da drwy'r strwythurau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad

5.9 Arweinwyr Caffael

Cyn prynu unrhyw offer i gleifion y gellir ei ailddefnyddio, rhaid trafod gyda chynhyrchwyr, arweinwyr atal a rheoli heintiau lleol, ac arweinwyr dihalogi lleol, lle bo hynny'n berthnasol, i sicrhau bod modd diheintio eitemau o'r fath yn ddiogel yn y sefydliad. Mae angen i offer a ddefnyddir hwyluso ANTT® e.e. pecynnau mewnosod, hambyrddau a throlïau. Dylai'r rhain fod ar gael yn hwylus ac yn hygyrch ledled y sefydliad. Mae angen rhesymoli a safoni dewisiadau offer ledled Cymru er mwyn helpu i leihau amrywiaeth mewn ymarfer ym maes techneg aseptig.

5.10 Sefydliadau Addysg Uwch (SAU):

Bydd prifysgolion ledled Cymru yn gweithio i safoni eu cwricwlwm o ran cymwyseddau addysgu a dysgu ym maes ANTT® ar gyfer pob myfyriwr gofal iechyd proffesiynol e.e. nyrsio, meddygol, podiatreg, parafeddygon ac iechyd perthynol mewn perthynas ag ANTT®, ar adeg cofrestru.

6 Cyflwyno ANTT®

Bydd angen y canlynol i gyflwyno ANTT®:

- Ymrwymiad ar lefel weithredol
- Rhaglen hyfforddi ac asesu ANTT® gadarn
- Offer ac adnoddau priodol
- Codi ymwybyddiaeth o ANTT® ledled y sefydliad cyfan
- Rhaglen archwilio ANTT® y cytunwyd arni'n lleol
- Rhaglen archwilio allanol, fel y cytunwyd gydag ASAP a HARP, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Prosesau monitro a chofnodi cadarn ar gyfer cydymffurfiaeth
- Dulliau adrodd allweddol ar effaith neu niwed

6.1 Achrediad ANTT® ar gyfer Darparwyr Gofal Iechyd:

Mae Canllaw Achredu ANTT 2023 (Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG.Cymru) sy'n cael ei oruchwylio'n ddirwystr gan ASAP yn darparu mecanwaith fel bod sefydliadau gofal iechyd yn gallu dangos llywodraethu clinigol effeithiol ar gyfer techneg aseptig, ac ymrwymiad i atal heintiau a diogelwch cleifion. Gall hyn fod yn ddefnyddiol i sefydliadau ddangos eu gwaith caled ym maes atal heintiau i reoleiddwyr allanol, cleifion/defnyddwyr gwasanaethau, a'r cyhoedd.
Ceir tair lefel o achredu: Efydd, Arian ac Aur.

- Llyfr Gwaith Achrediad Efydd ANTT
- Llyfr Gwaith Achrediad Arian ANTT
- Llyfr Gwaith Achrediad Aur ANTT

Mae'r meini prawf achredu yn seiliedig ar y rhagofynion canlynol ar gyfer arferion diogel a gorau:

- Polisi ANTT®
- Addysg ANTT®
- Asesiad ANTT®

- Monitro ANTT®

I gael cymorth gydag Achrediad ANTT® cysylltwch ag enquiries@antt.org

7 Hyfforddiant:

Dechreuodd Cymru gyflwyno'r rhaglen ANTT® ym mis Mehefin 2015 (WHC/2015/026).[19] Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ledled Cymru er gwaethaf adnoddau cyfyngedig i gefnogi hyn; fodd bynnag, mae'n rhaid i bob sefydliad barhau i geisio sicrhau bod pawb sy'n rhoi triniaethau (beth bynnag yw teitl eu swydd) yn cydymffurfio ag egwyddorion techneg aseptig. Wrth i weithwyr newydd ymuno â'r sefydliad, dylai cydymffurfiaeth ag ANTT® fod yn rhan orfodol o'u rhaglen gynefino.

Dylid rhoi blaenoriaeth ar gyfer hyfforddiant i staff sy'n gweithio mewn unedau gofal estynedig, staff sy'n rhoi triniaethau mewnwthiol, a'r holl weithwyr newydd.

Rhaid i gofrestreion proffesiynol gydnabod eu hatebolrwydd yn unol â'u cod ymddygiad eu hunain,[8,12] e.e. Mae'r Cod (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2015)[12] yn datgan bod yn rhaid i nyrsys fod â sylfaen wybodaeth dda cyn rhoi unrhyw driniaeth glinigol, dylent gael eu hyfforddi'n briodol, a dylent fod wedi sicrhau cymhwysedd yn eu maes clinigol. Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (Good medical practice-English 2014 (gmc-uk.org)[8] yn datgan bod yn rhaid i feddygon gydnabod a gweithio o fewn terfynau eu cymhwysedd, darparu safonau ymarfer gofal da a diweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau proffesiynol.

- Bydd pob gweithiwr gofal iechyd ledled Cymru sy'n gweithio ym maes triniaethau aseptig yn cwblhau'r hyfforddiant ANTT® y cytunwyd arno'n genedlaethol yn ymwneud ag egwyddorion a theori ANTT® cyn yr asesiad o'u cymhwysedd, h.y. y modiwl e-ddysgu cyfredol sydd ar gael yn dysgu@GIGCymru: https://learning.nhs.wales/?lang=cy
- Hefyd, addysgir ANTT® yn lleol mewn adrannau trwy gyfrwng hyfforddwyr/hwyluswyr/aseswyr allweddol hyfforddedig, gan ddefnyddio adnoddau ANTT®: Adnoddau ANTT® (antt.org) mewn fframwaith gweithredu sydd wedi'i lunio gan y sefydliad lleol
- Defnyddir ANTT® ar gyfer pob triniaeth a addysgir sy'n ymwneud ag asepsis
- Rhaid asesu pob gweithiwr gofal iechyd fel rhywun sy'n gymwys i ddefnyddio ANTT® naill ai drwy ddefnyddio'r offeryn Asesu Cymhwysedd ANTT® Safonol CAT Safonol v1.5 neu'r offeryn Asesu Llawfeddygol CAT Llawfeddygol v2
- Argymhellir y dylid cwblhau asesiad cymhwysedd ANTT® o fewn 3 mis i gwblhau'r rhaglen e-ddysgu ANTT®
- Rhaid i weithwyr gofal iechyd sy'n rhoi triniaethau aseptig gynnal eu cymhwysedd ANTT® trwy gwblhau asesiad o gymhwysedd ymarferol o

leiaf bob tair blynedd, a dylai'r asesiad gael ei fonitro trwy broses arfarnu flynyddol leol a'i gofnodi ar ESR
- Mae gan weithwyr gofal iechyd gyfrifoldeb unigol i sicrhau eu bod yn cynnal eu cymwyseddau, a rhaid iddynt hysbysu eu rheolwr llinell am unrhyw rwystrau sy'n eu hatal rhag cyflawni hyn, neu os yw cyfnod eu cymhwysedd wedi dod i ben
- Os yw gweithiwr gofal iechyd yn newid arbenigedd neu'n dechrau swydd newydd yn y Bwrdd/Ymddiriedolaeth Iechyd sydd angen cymhwysedd mewn sgiliau gwahanol, rhaid gwneud asesiad risg o'r angen am hyfforddiant/asesiad ANTT® pellach a'i gytuno gyda rheolwr llinell y gweithiwr. Gellir gofyn am gyngor gan yr Arweinydd ANTT® lleol

Ar gyfer staff nad ydynt yn gallu cyrchu rhaglenni e-ddysgu ANTT® trwy ESR neu Dysgu@Cymru, mae angen gwneud trefniadau i ddarparu adnoddau addysgol electronig/papur, ac mae'n rhaid i'r adnoddau hyn gynnwys prif egwyddorion ANTT®.

Cydnabyddir y bydd cyfnod o amser pan na fydd pob aelod o staff sy'n cyflawni techneg aseptig wedi cwblhau'r hyfforddiant a'r asesiad priodol ar gyfer ANTT®. Felly, gellir defnyddio sgiliau ymarfer aseptig presennol i sicrhau nad oes unrhyw effaith ar wasanaethau, yn dilyn asesiad risg lleol unigol gyda'r bwriad o gydymffurfio cyn gynted ag y bo modd.

8. Ymarfer atal heintiau sylfaenol pwysig ar gyfer techneg aseptig:

Nid bwriad yr adnodd hwn yw bod yn offeryn addysgol cynhwysfawr, ond yn ogystal ag amlinellu'r Fframwaith ANTT® (gweler atodiad 9), mae rhai agweddau cyffredinol pwysig ar dechneg aseptig wedi'u hamlinellu isod.

8.1 Defnyddio Rhagofalon Atal a Rheoli Heintiau Safonol (SIPCP) megis hylendid dwylo:

Un o ragofynion ANTT® diogel yw cydymffurfio â rhagofalon rheoli heintiau safonol (SICP):

Dylid cyflawni SICPs yn unol â'r epic3 Guidelines[9] a Llawlyfr Atal a Rheoli Heintiau Cenedlaethol yr Alban (NIPCM)[2] sef yr adnodd a fabwysiadwyd i'w ddefnyddio ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru. Dyma 10 elfen SICP:

- Lleoliad Cleifion
- Hylendid Dwylo
- Peswch Anadlol a Hylendid
- Cyfarpar Diogelu Personol
- Rheoli offer gofal yn ddiogel
- Rheoli'r amgylchedd gofal yn ddiogel
- Rheoli dillad gwely ac ati yn ddiogel
- Rheoli gwaed a gollyngiadau hylif y corff yn ddiogel

- Gwaredu gwastraff yn ddiogel
- Diogelwch galwedigaethol: Rheoli Atal a Chysylltiad (e.e. cyfarpar miniog)

Yr elfennau allweddol sy'n gysylltiedig ag ymarfer ANTT yw hylendid dwylo, gofalu am gyfarpar a'r amgylchedd yn ddiogel, defnydd diogel a phriodol o gyfarpar diogelu personol a gwaredu gwastraff.

8.2 Hylendid Dwylo

Hylendid dwylo yw'r dull mwyaf effeithiol o atal HCAI a chroes-heintio sy'n deillio o gyswllt uniongyrchol ac anuniongyrchol.[2,9,21] Mae'n hanfodol bod dwylo'n cael eu diheintio'n effeithiol yn unol â "MY five Moments of Hand Hygiene"[21] SAVE LIVES Clean YOUR Hands Sefydliad Iechyd y Byd cyn, yn ystod (yn ôl yr angen) ac ar ôl pob triniaeth aseptig.

8.3 Defnyddio cyfarpar diogelu personol

Mae menig a mathau eraill o gyfarpar diogelu personol yn rhwystr rhwng micro-organebau ar ddwylo, dillad, a safleoedd lle mae micro-organebau yn gallu byw, ond rhaid defnyddio cyfarpar o'r fath ar y cyd â hylendid dwylo a thechneg gwisgo a diosg dda.
O ran menig a ddefnyddir ar gyfer ANTT:

- Rhaid gwisgo a defnyddio menig yn ôl y bwriad, eu newid mor aml ag sy'n briodol a rhwng triniaethau, a'u diosg yn ofalus er mwyn osgoi colli neu ledaenu micro-organebau
- Defnyddir menig **nad ydynt yn ddi-haint** ar gyfer triniaethau ANTT® Safonol e.e. paratoi a darparu meddyginiaeth fewnwthiol, gosod maeth drwy'r gwythiennau, gwythïen-bigo, a phibelliad, yn unol â pholisïau lleol
- Defnyddir **menig di-haint** ar gyfer triniaethau ANTT® Llawfeddygol fel llawdriniaeth, cathetr wrinol, neu fewnosod cathetr gwythiennol canolog

Dylid gwisgo ffedogau a mathau eraill o gyfarpar diogelu personol (ffedogau, gynau, masgiau, amddiffyniad wyneb) yn unol â NIPCM a'r haint cysylltiedig.

8.4 Halogiad Amgylcheddol/Aer

Bydd gronynnau a gludir yn yr awyr yn y man clinigol yn cynnwys amrywiaeth o ficro-organebau gan gynnwys micro-organebau'r claf/y defnyddiwr gwasanaeth, staff a ffynonellau eraill. Mae wedi dod i'r amlwg bod y gronynnau hyn yn peri risg o drosglwyddo heintiau amrywiol. Gellir cymryd rhagofalon synhwyrol i leihau'r risg o halogi'r safle aseptig â gronynnau yn ystod triniaethau ANTT gan gynnwys:

- Paratoi cyffuriau mewn ardal ddynodedig briodol yn bell o ochr y gwely a'r sinc

- Dylid cwblhau triniaethau ANTT® h.y. newid dresin clwyfau a mewnosod dyfeisiau meddygol, mewn ystafell driniaeth/ddresin/archwilio addas i'r diben a phwrpasol (os oes ystafell o'r fath ar gael) nad yw'n agos at wely'r claf
- Peidio â defnyddio ANTT® pan fydd lefelau symudiadau gronynnau aer yn debygol o fod ar eu huchaf e.e. glanhau ward/adran, wrth ymyl gwyntyllau trydan cludadwy neu'n agos at ffenestri agored neu waith adnewyddu adeilad
- Peidio â defnyddio ANTT® os yw'r gwely wedi'i wneud yn ddiweddar neu os yw claf wedi dadwisgo/gwisgo
- Hysbysu cleifion am y drefn ar gyfer pesychu/tisian e.e. defnyddio hancesi papur

8.5 Cymorth angenrheidiol ar gyfer techneg aseptig effeithiol

Gellir lleihau'r risg o halogiad microbiolegol yn ystod triniaethau ANTT® trwy ddefnyddio mesurau angenrheidiol pwysig gan gynnwys:

- Glanhau'r amgylchedd yn effeithiol
- Storio cyfarpar y driniaeth yn ddiogel
- Cydymffurfio â gweithdrefnau a pholisïau dihalogi
- Mannau paratoi clinigol wedi'u cynllunio'n ergonomaidd
- Rhesymoli a safoni dewisiadau triniaeth a chyfarpar e.e. pecynnau triniaeth, hambyrddau

8.6 ANTT® Argyfwng

Ar gyfer staff argyfwng rheng flaen WAST, gan gynnwys uwch ymarferwyr parafeddygol, parafeddygon, uwch dechnegwyr, technegwyr, staff gwasanaethau gofal brys, staff argyfwng ar is-gontract, sefydliadau nad ydynt yn perthyn i'r GIG, staff Banc a staff rheng flaen asiantaethau.

Mae'r defnydd o ANTT® yn gyffredin mewn ysbytai acíwt, ond mae egwyddorion ymarfer syml ond cadarn ANTT yr un mor effeithiol yn y sefyllfaoedd a'r amgylcheddau mwyaf heriol a brys. Mae triniaethau brys sy'n achub bywydau a lle mae amser yn hollbwysig sy'n cael eu cwblhau y tu allan i ysbyty yn cyfiawnhau lefelau is o gydymffurfiaeth â holl egwyddorion ANTT® ac felly ANTT Argyfwng yw'r dull pragmatig o ddefnyddio ANTT®, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- Beth sy'n bosibl i'w gyflawni ar y pryd
- Blaenoriaethu'r adegau pan fydd 'Rhannau Allweddol' a 'Chlwyfau Allweddol' yn rhyngweithio (yr adegau pan fydd microbau'n gallu trosglwyddo)
- Asesiad risg dynamig i benderfynu'r camau paratoi, ac os na ellir eu cyflawni, rhoddir blaenoriaeth i elfennau mwyaf hanfodol y dechneg aseptig yn gyntaf
- Cofnodi'r ANTT a ddefnyddiwyd yn ystod y driniaeth e.e. Safonol, argyfwng, llawfeddygol

Nid gwanhau ANTT® neu ostwng safonau yw'r bwriad, ond yn hytrach canolbwyntio sylw'r ymarferwyr ar elfennau pwysicaf ymarfer diogel yn gyntaf, mewn perthynas ag amser, lleoliad a chyfarpar.

Mae'n rhaid cwblhau asesiad risg o'r sefyllfa cyn dewis ANTT® Argyfwng, er enghraifft: 'Oes gen i'r amser, y cyfarpar, a'r amgylchedd i gymhwyso ANTT Safonol neu Lawfeddygol?'
Os mai'r ateb yw 'oes' – defnyddiwch ANTT Safonol neu Lawfeddygol.
Os mai'r ateb yw 'nac oes' – defnyddiwch ANTT Argyfwng.

Mae'n bwysig bod yr ymarferydd yn cofnodi ac yn trosglwyddo pan y defnyddir ANTT argyfwng a chadarnhau a oedd modd cynnal asepsis, neu a oedd y sefyllfa 'argyfwng' wedi effeithio ar hynny. Mae WAST wedi cyflwyno labeli lliw cod ANTT, a fydd yn cael eu cymhwyso i unrhyw driniaethau mewnwthiol er mwyn rhoi gwybod i staff sy'n derbyn claf am y triniaethau ANTT a ddefnyddiwyd (gweler Atodiad 7).

9. Adnoddau ANTT

9.1 Canllawiau ar Weithdrefn ANTT®

Mae'r canllawiau syml hyn sy'n cynnwys lluniau yn ddull effeithiol iawn i'r sefydliad amlinellu ei ddisgwyliadau ar gyfer y weithdrefn, gan nodi dilyniant ac offer y weithdrefn. Dylid eu harddangos mewn lle amlwg mewn ardaloedd clinigol perthnasol.

9.2 PowerPoint Addysgol ar y Dull ANTT

Mae'r 'Dull ANTT' yn Ymgyrch Ryngwladol sydd â'r nod o hyrwyddo elfennau hanfodol techneg aseptig. Mae'r dull hwn yn seiliedig ar 'bartneriaeth' dair ffordd rhwng cleifion, gweithwyr gofal iechyd a sefydliadau gofal iechyd, er mwyn mynd ati i hyrwyddo'r '6 Cham Gweithredu ar gyfer Techneg Aseptig Ddiogel', i'w defnyddio bob tro.

Mae tri phoster yn symleiddio'r fframwaith hwn:

- Poster i gleifion – Atodiad 3
- Poster i Staff Clinigol – Atodiad 4
- Poster Fframwaith Ymarfer Clinigol ANTT® – Atodiad 5

9.3 Camau ar gyfer gweithdrefn ANTT® – gweler Atodiad 2

10. Lledaenu a Gweithredu

Bydd y polisi hwn sydd wedi'i ddiwygio a'i ddiweddaru yn cael ei weithredu trwy'r llwybrau canlynol:

- Cylchredeg i holl arweinwyr gweithredol Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd, arweinwyr IPCT, arweinwyr WAST, arweinwyr Gofal Sylfaenol a Chymunedol, HCAI DB

- Ar gael trwy lyfrgell ddogfennau'r Bwrdd/Ymddiriedolaeth Iechyd leol
- Ar gael drwy wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru/HARP
- Ar gael i bob gweithiwr gofal iechyd trwy fewnrwyd y Bwrdd/Ymddiriedolaeth Iechyd leol

Mae pob Bwrdd/Ymddiriedolaeth Iechyd yn gyfrifol am gyflwyno'r polisi diwygiedig hwn yn llawn a rhaid iddynt sicrhau bod gan yr holl staff perthnasol fynediad at y polisi.

11. Archwilio a Monitro'r Gwaith o Gyflwyno ANTT®

Bydd y gwaith monitro'n cael ei wneud drwy'r ffyrdd canlynol:

- Canran y staff sydd wedi cwblhau theori ANTT® ac Asesiadau Cymhwysedd ANTT® drwy sicrhau bod cofnodion yn cael eu diweddaru'n ganolog ar ESR
- Arsylwi ar ymarfer clinigol a thriniaethau aseptig
- Adborth wedi'i dargedu gan gleifion
- Adolygiad o'r dogfennau/polisi
- Fel rhan o fentrau Gwelliant Cymru (a elwid gynt yn 1000 o fywydau) e.e. defnyddio bwndel ac atal heintiau'r llwybr wrinol sy'n gysylltiedig â chathetr (CAUTI), gofal cathetr gwythiennol ymylol (PVC) a chathetr gwythiennol canolog, atal haint clwyf llawfeddygol
- Nodi effaith a lefelau cydymffurfio ANTT® ar ymchwilio i HCAI, e.e. bacteremia *Staphylococcus aureus* neu haint clwyf llawfeddygol, CAUTI trwy ddadansoddiad o wraidd y broblem ac adolygiad ar ôl digwyddiad
- Rhaglen archwilio dreigl flynyddol IPC, gan gynnwys archwiliad allanol gan ASAP neu archwiliadau ad hoc gan dîm HARP
- Targedu rhaglenni archwilio, lle penderfynir bod angen gwneud hynny yn dilyn digwyddiad neu achosion
- Newidiadau angenrheidiol mewn ymarfer a nodwyd ac a weithredwyd
- Achrediad ANTT®

Dylid rhannu unrhyw 'wersi a ddysgwyd' yn lleol ac yn genedlaethol ledled Cymru er mwyn cynorthwyo a hyrwyddo ymarfer gorau.

12. Cydymffurfio/Diffyg Cydymffurfio â'r Polisi

Os oes unrhyw weithiwr Bwrdd Iechyd yn methu â chydymffurfio â'r polisi hwn, gellir ymdrin â'r mater yn unol â pholisi'r gweithlu a'r polisi Datblygu Sefydliadol. Bydd y camau sy'n cael eu cymryd yn dibynnu ar yr amgylchiadau unigol a byddant yn cyd-fynd â'r gweithdrefnau disgyblu priodol. O dan rai amgylchiadau, gellid ystyried bod methu â dilyn y polisi hwn yn gamymddwyn difrifol.

13. Dosbarthu

Bydd y polisi Cymru gyfan ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru/HARP a thrwy fewnrwyd Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd lleol.

Os nad oes gan staff fynediad at y fewnrwyd, rhaid i'w rheolwr llinell sicrhau bod ganddynt fynediad at gopi papur cyfredol o'r polisi hwn.

14. Adolygiad

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd neu os yw'r canllawiau yn newid.

15. Deddfwriaeth

Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 2002 (fel y'u diwygiwyd), yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, L5 (6ed argraffiad) 2013. Safonau Iechyd a Gofal Llywodraeth Cymru 201529. Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.[30]

16. Cydraddoldeb

Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar lefel Cymru gyfan ar ôl cwblhau fersiwn 1 (Gorffennaf 2017), adolygiad o Fersiwn 2 (Mehefin 2019) ac adolygiad o Fersiwn 3 (Rhagfyr 2022) ac nid oedd angen gwneud unrhyw newidiadau.

Mae adroddiad Dilysu wedi'i gwblhau ar gyfer HARP, Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi fersiwn 3 (Rhagfyr 2022).

17. Cyfeiriadau a Llyfryddiaeth

1. Egwyddorion ANTT: www.antt.org

2. Polisïau Enghreifftiol Atal a Rheoli Heintiau Cenedlaethol Cymru ac NHS Scotland – ar-lein: NIPCM

3. Llywodraeth Cymru: Cylchlythyr Iechyd Cymru (WHC/2022/14) Dyddiad cyhoeddi: 01/03/22: Nodau gwella ar gyfer AMR a HCAI a disgwyliadau lleihau erbyn mis Mawrth 2023: Nodau Rhagnodi Gwrthficrobaidd Gofal Sylfaenol a Gofal Eilaidd; Bacteremia *C-difficile*, *S.Aureus*, a Bacteremia sy'n Adweithio'n Negyddol i Brofion Gram.

4. Implementing the Aseptic Non-Touch Technique (ANTT®) clinical practice framework for aseptic technique: a pragmatic evaluation using a mixed methods approach in two London hospitals. Cyfrol 9, Rhifyn 1. Ionawr 2018. Journal of Infection Prevention, SAGE Journals. https://journals.sagepub.com/doi/full/10.1177/1757177417720996

5. Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 2002 (fel y'u diwygiwyd). Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, L5 (6ed argraffiad) 2013: <http://www.hse.gov.uk/pUbns/priced/l5.pdf>

6. Yr Adran Iechyd (2009), Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2008). Cod Ymarfer ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol oedolion ar atal a rheoli heintiau a chanllawiau cysylltiedig. Llundain.

7. Dougherty L. Lister S (2015) Aseptic Technique yn: L Dougherty ac S Lister (gol.) The Royal Marsden Hospital Manual of Clinical Nursing Procedures 10. DU. Wiley-Blackwell 24 Ebrill 2020. Procedures - Royal Marsden Manual

8. Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) Ymarfer Meddygol Da, Good medical practice - ethical guidance - GMC (gmc-uk.org) Good medical practice-English (gmc-uk.org)

9. Loveday H.P., Wilson J.A., Pratt R.J., Golsorkhi M., Tingle M., Bak A., Browne J., Prieto J., Wilcox M. (2014) epic 3: National Evidence - Based Guidance for Preventing Healthcare Associated Infections in NHS Hospitals in England. Journal of Hospital Infection. S1.

10. Overview | Healthcare-associated infections: prevention and control in primary and community care | Guidance | NICE, diweddariad diwethaf 11 Ebrill 2019.

11. NICE Infection prevention and control of healthcare-associated infections in primary and community care: Clinical guideline (CG139). Defnyddiwyd mis Hydref 2022.

12. NMC (2015) Cod Ymarfer Proffesiynol. Llundain. NMC. Diweddariad diwethaf: mis Hydref 2022: The NMC Code:

13. Rowley, S. (2009) Improving standards of aseptic technique practice through an ANTT trust-wide implementation process: a matter of prioritisation and care. Journal of Infection Prevention, 10(1) JIP-2009 Improving standards

14. Rowley, S a Clare S (2011) ANTT: a standard approach to aseptic technique. Nursing Times; 107 :(36) Rowley, J. ANTT: 2011 a standard approach to aseptic technique | Nursing Times

15. Rowley, S (2001) Aseptic Non-Touch Technique Nursing Times. Infection Control Supplement Chwe 15 97(7) p V1-V111. Aseptic non-touch technique |2001 Nursing Times

16. Rowley S, Clare S, Macqueen S, Molyneux, R (2010) ANTT v2: An updated practice framework for aseptic technique. British Journal of

Nursing 2010: 19(5); S5-S11. ANTT v2: An updated practice framework for aseptic technique

17. Llawlyfr Electronig Llywodraethu Cymru Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

18. Llywodraeth Cymru (Mai 2014). Cod Ymarfer ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd Cod Ymarfer Cymru 2014 (yn cael ei adolygu ar hyn o bryd)

19. Cod ymarfer ar gyfer atal a rheoli heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (llyw.cymru)

20. Llywodraeth Cymru: Cylchlythyr Iechyd Cymru (WHC/2015/026) 5 Mehefin 2015: Techneg Aseptig Ddi-gyffwrdd (ANTT): Gweithredu Dull Safonedig Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, Mehefin 2015).

21. Llywodraeth Cymru: Cylchlythyr Iechyd Cymru (WHC/2015/047) 9 Hydref 2015: Techneg Aseptig Ddi-gyffwrdd (ANTT): Diweddariad ar Weithredu Dull Safonedig Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, mis Hydref 2015).

22. Sefydliad Iechyd y Byd. Save lives clean your hands "My Five moments" Technical reference manual ' WHO My Five moments

23. Llywodraeth Cymru: WHC/2018/020: Nodau Gwella AMR a Disgwyliadau Lleihau HGGI erbyn Mawrth 2019: Nodau Rhagnodi Gwrthficrobaidd Gofal Sylfaenol ac Eilaidd; bacteremia *C-difficile*, *S.Aureus*, a Bacteremia sy'n Adweithio'n Negyddol i Brofion Gram. Dyddiad cyhoeddi: 04/05/2018.

24. Khurana, S., Saini, S.S., Sundaram, V., Dutta, S. a Kumar, P., 2018. Reducing Healthcare-associated Infections in Neonates by Standardizing and Improving Compliance to Aseptic Non-touch Techniques: A Quality Improvement Approach. *Indian paediatrics*, *55*(9), tt.748-752. Reducing Healthcare associated Infections in Neonates

25. Aziz, A.M., 2018. Winter and the key infection prevention and control practices. *British journal of community nursing*, *23*(11), tt.530-533. Winter and the key infection prevention and control practices - PubMed (nih.gov)

26. Haesler, E., Thomas, L., Morey, P. a Barker, J., 2016. A systematic review of the literature addressing asepsis in wound management.

Wound Practice & Research: Journal of the Australian Wound Management Association, *24*(4), t.208. Systematic Review

27. Llywodraeth Cymru/Gofal Iechyd Darbodus 2019: sicrhau iechyd a llesiant cenedlaethau'r dyfodol

28. Llywodraeth y DU: Tackling antimicrobial resistance 2019 to 2024: the UK's 5-year National Action Plan. Tackling antimicrobial resistance 2019 to 2024: addendum to the UK's 5-year national action plan - GOV.UK (www.gov.uk)

29. Llywodraeth y DU: How the UK will contribute to containing and controlling antimicrobial resistance (AMR) by 2040 UK 20-year vision for antimicrobial resistance - GOV.UK (www.gov.uk)

30. Llywodraeth Cymru: Safonau Gofal Iechyd 2015 Fframwaith safonau iechyd (Llyw.Cymru)

31. Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Canllawiau Statudol Dyletswydd Ansawdd 2023 a Y ddogfen ymgynghori ar ddyletswydd ansawdd | LLYW.CYMRU

18. ATODIADAU

Atodiad 1: Diffiniadau / Geirfa

Asepsis
Rhyddid rhag deunydd pathogenaidd mewn digon o faint i achosi haint.

Maes Aseptig
Man gweithio sydd wedi'i bennu'n aseptig er mwyn lleihau'r risg o halogi cyfarpar y driniaeth.

Techneg Aseptig
Term cyffredinol a phroses amrywiol ar gyfer disgrifio'r rhagofalon sy'n cael eu cymryd i leihau'r risg o haint yn ystod triniaethau clinigol mewnwthiol.

Techneg Aseptig Ddi-gyffwrdd (ANTT®)
Math penodol o dechneg aseptig sydd â fframwaith damcaniaethol ac ymarfer clinigol unigryw (NICE 2012).

Dihalogi
Dileu neu ladd pathogenau ar eitem neu arwyneb fel ei bod yn ddiogel i'w defnyddio, eu hailddefnyddio neu ei gwaredu trwy lanhau, diheintio a/neu sterileiddio.

Trosglwyddiad cyswllt uniongyrchol
Lledaenu cyfryngau heintus o un person i'r llall trwy gyswllt uniongyrchol rhwng y croen.

Diheintydd
Cemegyn glanhau a ddefnyddir i waredu cyfryngau heintus o wrthrychau ac arwynebau.

Diheintio
Proses, trwy ddefnyddio diheintydd cemegol er enghraifft, i leihau nifer y cyfryngau heintus ar wrthrych neu arwyneb i lefel sy'n sicrhau nad ydynt yn niweidiol i iechyd.

Hylendid Dwylo
Hylendid dwylo yw'r weithdrefn bwysicaf ar gyfer atal lledaeniad HCAI. Mae hylendid dwylo effeithiol yn hanfodol i ANTT® a rhaid iddo ddigwydd cyn ac ar ôl pob techneg fewnwthiol. Mae hylendid dwylo'n berthnasol i olchi dwylo, hylif diheintio i'r dwylo, deunydd rhwbio diheintio i'r dwylo neu hylif gwrth-sepsis llawfeddygol i'r dwylo.

Haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (HCAI)

Unrhyw haint a gafwyd gan berson o ganlyniad i ymyriadau gofal iechyd, waeth ble mae gofal yn cael ei ddarparu.

Trosglwyddiad cyswllt anuniongyrchol – Lledaenu cyfryngau heintus o un person i'r llall trwy wrthrych halogedig.

Dyfais fewnwthiol - Dyfais sy'n treiddio i'r corff, naill ai trwy geudod y corff neu drwy arwyneb y corff. Mae Cathetrau Gwythiennol Canolog (llinell ganolog), Llinellau Ymylol / Rhydwelïol a Chathetrau Wrinol yn enghreifftiau o ddyfeisiau mewnwthiol.

Triniaethau Mewnwthiol
Triniaeth feddygol/nyrsio sy'n treiddio'r corff (yn mynd i mewn iddo), fel arfer trwy dorri neu dyllu'r croen neu drwy fewnosod offer i geudod y corff.

Micro-organeb (microb) – Unrhyw beth byw (organeb) sy'n rhy fach i'w weld gan y llygad. Mae bacteria, feirysau, a rhai parasitiaid yn ficro-organebau.

Modd trosglwyddo – Sut mae micro-organebau'n lledaenu o un person i'r llall. Y prif foddau neu lwybrau trosglwyddo yw trosglwyddo trwy'r awyr (aerosol), trosglwyddo trwy ddefnynnau a throsglwyddo trwy gyffwrdd.

MRSA - Mathau o'r cyfrwng heintus (bacteriwm) *Staphylococcus aureus* sy'n gwrthsefyll llawer o'r gwrthfiotigau sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin i drin heintiau.

Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)
Cyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio gan unigolion i amddiffyn ei hun rhag peryglon i'w iechyd neu ei ddiogelwch, gan gynnwys dod i gysylltiad â heintiau e.e. menig a ffedogau tafladwy.

Sbôr
Cyflwr rhai mathau o facteria o dan amodau amgylcheddol penodol. Gall sborau oroesi am gyfnodau hir ac maent yn gallu gwrthsefyll gwres, sychu a chemegion.

Di-haint
Yn rhydd o bob math o facteria byw neu ficro-organebau eraill.

Sterileiddio
Y weithdrefn ar gyfer gwneud gwrthrych yn rhydd o bob germ, bacteria byw, neu ficro-organebau eraill (trwy gyfrwng gwres neu ddull cemegol fel arfer).

Atodiad 2: Camau triniaeth ANTT®

Cam 1.	Asesiad risg ANTT®: A oes angen cymhwyso egwyddorion ANTT® ar gyfer y driniaeth hon? A oes angen ANTT® Safonol neu Lawfeddygol? Sicrhau caniatâd y claf ac esbonio'r driniaeth Tynnu'r llenni o amgylch y claf neu fynd ag ef i ystafell briodol
Cam 2	Diheintio'r dwylo
Cam 3	Glanhau'r troli/hambwrdd trwy ddefnyddio weips glanedydd priodol Casglu'r cyfarpar gan gynnwys hylif diheintio dwylo ag alcohol
Cam 4	Creu amgylchedd gwaith addas. Os yw'r driniaeth yn cael ei rhoi wrth ochr y gwely, sicrhau nad oes unrhyw waith glanhau na gwaith gwneud gwelyau yn mynd rhagddo yn yr ardal am o leiaf 30 munud. Sicrhau bod ffenestri ar gau a bod pob gwyntyll wedi'i diffodd
Cam 5	Diheintio'r dwylo
Cam 6	Gwisgo ffedog dafladwy untro
Cam 7	Os oes angen, agor pecyn y dresin/gorchudd di-haint
Cam 8	Agor a pharatoi'r holl gyfarpar ar yr hambwrdd/troli. Cadw'r holl gyfarpar yn y deunydd pacio. Nodi'r Rhannau Allweddol
Cam 9	Diheintio'r dwylo
Cam 10	Gwisgo menig os oes angen
Cam 11	Rhoi'r driniaeth gan ddefnyddio ANTT®
Cam 12	Tynnu menig, ffedogau a PPE arall
Cam 13	Gwaredu gwastraff
Cam 14	Diheintio'r dwylo
Cam 15	Mynd â'r claf yn ôl i ochr y gwely os oes angen a sicrhau bod y claf yn gyfforddus
Cam 16	Glanhau'r troli/hambwrdd/amgylchedd

Cam 17	Diheintio'r dwylo

Atodiad 3: Poster ANTT® i Gleifion

ASAP The Association for Safe Aseptic Practice

ANTT® Aseptic Non Touch Technique

MRSA Action UK

Atodiad 4: Poster ANTT® i Staff Clinigol

ASAP The Association for Safe Aseptic Practice

ANTT® Aseptic Non Touch Technique

MRSA Action UK

Atodiad 5: Poster Fframwaith Ymarfer Clinigol ANTT®:

ANTT®
Aseptic Non Touch Technique
www.antt.org



Copyright © 2015 The Association for Safe Aseptic Practice (The-ASAP) ANTT® All rights reserved. V4.0

Atodiad 6: Templed enghreifftiol ar gyfer Staff Ambiwlans: Canllaw Pibelliad Ymylol (2017)

Atodiad 7: Asesiad Risg Argyfwng ANTT



Defnyddio labeli cod lliw i hysbysu staff gofal iechyd sy'n derbyn claf am y driniaeth ANTT a ddefnyddiwyd:

Label Coch wedi'i osod ar glwyf y driniaeth. **Ni chyflawnwyd ANTT mewn amodau optimaidd. Dyddiad.**

ANTT not performed in optimal conditions ...../...../.....

Label Gwyrdd wedi'i osod ar glwyf y driniaeth. **ANTT wedi'i gyflawni mewn amodau optimaidd. Dyddiad.**

ANTT performed in optimal conditions ...../...../.....

Atodiad 8: Terminoleg Safonol

Bu dryswch yn y gorffennol rhwng techneg aseptig a thermau amwys a ddefnyddir yn gyfnewidiol. Mae'r Fframwaith Ymarfer ANTT® yn diffinio ymarfer aseptig yn benodol:

- ***Techneg Ddi-haint***

Nid yw ANTT® yn defnyddio'r gair "di-haint" i ddisgrifio techneg; oherwydd y llu naturiol o organebau yn yr atmosffer, nid oes modd sicrhau techneg wirioneddol ddi-haint mewn unrhyw leoliad. Defnyddir y term di-haint i nodi cynhyrchion a chyfarpar sydd wedi'u diheintio. Fodd bynnag, unwaith y mae cyfarpar a chynhyrchion yn dod i gysylltiad ag aer, dywedir eu bod yn aseptig.

- ***Asepsis / Techneg aseptig***

Mae'r term 'asepsis' yn golygu '*Rhyddid rhag digon o ddeunydd pathogenaidd i achosi haint'*. Mae modd sicrhau asepsis wrth ddarparu gofal iechyd trwy gymryd camau i leihau halogiad cleifion. Mae techneg aseptig yn derm cyffredinol ar gyfer ymarfer aseptig, ac nid oes ganddi fframwaith ymarfer wedi'i ddiffinio'n benodol.

- ***Techneg Aseptig Ddi-gyffwrdd (ANTT®)***

Mae ANTT® yn fath penodol o dechneg aseptig sydd â fframwaith damcaniaethol ac ymarfer clinigol unigryw.[10,11,12] Mae'r Fframwaith Ymarfer ANTT® yn cynnwys set o Egwyddorion a Mesurau Diogelu, a thrwy eu dilyn, bydd modd sicrhau asepsis ar gyfer pob math o driniaethau mewnwthiol 'o'r theatr lawdriniaeth i'r lleoliad cymunedol'. Mae'n seiliedig ar gysyniad newydd o'r enw 'Diogelwch Rhan Allweddol a Chlwyf Allweddol'.

Mae'r 'Dull ANTT' yn cynnwys cyfuniad o ddulliau sydd â'r nod o gyflawni a chefnogi ymarfer gorau wrth ddefnyddio techneg aseptig; gan gynnwys Fframwaith Ymarfer ANTT®, set o Ganllawiau ANTT® ar gyfer y triniaethau mewnwthiol mwyaf cyffredin a phroses weithredu safonol.

- ***Techneg Ddi-gyffwrdd***

Nid yw techneg ddi-gyffwrdd yn dechneg ynddi ei hun. Fodd bynnag, mae'n elfen bwysig o ANTT®.

Atodiad 9: Amlinelliad o Fframwaith Ymarfer ANTT®
Nid yw'r polisi enghreifftiol hwn wedi'i fwriadu i fod yn adnodd addysgol ar gyfer ANTT®. Mae'n bwysig bod Arweinwyr Ymarfer yn cyfeirio at y Fframwaith Ymarfer ANTT® llawn sydd ar gael ar wefan www.antt.org neu ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru - Fframwaith ANTT.
Amlinellir cipolwg ar y fframwaith isod:

- Asepsis yw nod ANTT® bob amser (gweler atodiad 8)

- **Rhannau allweddol** yw rhannau hanfodol unrhyw gyfarpar sy'n dod i gysylltiad â Chlwyfau Allweddol; unrhyw drwyth hylifol; neu sy'n dod i gysylltiad ag unrhyw Rannau Allweddol gweithredol eraill sy'n dod i gysylltiad â'r claf trwy ddyfais feddygol. Os yw Rhannau Allweddol yn cael eu halogi yn ystod triniaeth, maent yn darparu llwybr ar gyfer trosglwyddo pathogenau ar y claf neu i mewn i'r claf ac yn peri risg sylweddol o'i heintio.

- **Clwyfau allweddol**: clwyfau agored, gan gynnwys clwyfau mewnosod a thyllu ar gyfer dyfeisiau meddygol mewnwthiol.

- **Mae yna ddau fath o ANTT® (Llawfeddygol a Safonol) sy'n cael eu penderfynu gan Asesiad Risg ANTT® syml:**

- Defnyddir **ANTT® Safonol** ar gyfer triniaethau sy'n dechnegol syml er mwyn sicrhau asepsis. Fel arfer, bydd triniaeth o'r fath yn para am gyfnod byr ac yn cynnwys ychydig o Rannau Allweddol a Chlwyfau Allweddol bach. Ar gyfer ANTT Safonol, mae techneg ddi-gyffwrdd a Meysydd Aseptig Critigol Micro unigol yn amddiffyn Rhannau Allweddol.

- Mae angen **ANTT® Llawfeddygol** ar gyfer triniaethau sy'n dechnegol gymhleth i sicrhau asepsis, sy'n para'n hirach ac sy'n cynnwys clwyfau agored mawr a Rhannau Allweddol mawr neu niferus. Yn wahanol i ANTT Safonol, ym maes ANTT Llawfeddygol, rheolir Rhannau Allweddol ar un prif Faes Aseptig Critigol (gorchudd di-haint) ac mae menig di-haint yn hanfodol.

- **Meysydd Aseptig mewn ANTT®**: mae'r math o faes aseptig a sut mae'n cael ei reoli yn dibynnu ar y math o ANTT® a ddefnyddir.

Mae ANTT® yn defnyddio tri math o faes aseptig:
- ✓ **Maes Aseptig Critigol:** gorchudd di-haint mawr sy'n cael ei reoli'n 'gritigol'
- ✓ **Maes Aseptig Critigol Micro:** capiau, gorchuddion ac ati wedi'u diheintio, gan gynnwys y tu mewn i rai deunyddiau pacio cyfarpar
- ✓ **Maes Aseptig Cyffredinol:** hambwrdd plastig wedi'i ddiheintio, hambwrdd cardbord untro o faint addas. DS: Ni ddibynnir ar Feysydd Aseptig Cyffredinol i gynnal asepsis. Fe'u defnyddir i hyrwyddo asepsis

tra bod Rhannau Allweddol oddi mewn iddynt yn cael eu diogelu gan Feysydd Aseptig Critigol Micro. (Gweler uchod).

Un o ragofynion ANTT® diogel yw cydymffurfio â rhagofalon atal a rheoli heintiau safonol: